TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

AAT Diploma in Accounting (Modularised) Level 3

Yn gryno

Cwrs achlysurol yw hwn gyda dyddiadau dechrau hyblyg. Rydym yn recriwtio myfyrwyr drwy gydol y flwyddyn.

Mae hefyd yn gwrs dysgu cyfunol (cyfuniad o weithgareddau wyneb yn wyneb traddodiadol gydag athro mewn dosbarth a gweithgareddau dysgu gan ddefnyddio technolegau digidol o gartref).

Mae'r cwrs hwn yn dilyn Tystysgrif Sylfaen Lefel 2 mewn AAT a bydd yn eich galluogi i feithrin sgiliau pellach i symud ymlaen yn y maes cyfrifeg.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

... Rydych wedi cyflawni Tystysgrif Sylfaen AAT Lefel 2 mewn Cyfrifeg

... Rydych eisiau gwella eich sgiliau a'ch gwybodaeth yn y maes cyfrifeg

... Rydych eisiau gweithio ym maes cyfrifeg

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Cynnwys y cwrs

Byddwch yn gwella'r sgiliau rydych wedi'u datblygu yn ystod y Dystysgrif Lefel 2 mewn Cyfrifeg ac yn caffael ystod o sgiliau cyfrifeg hanfodol a chymhleth, gan gynnwys cynnal cofnodion cyfrifeg a chostio a pharatoi adroddiadau ac adenillion.

Mae'r cwrs Lefel 3 AAT mewn Cyfrifeg yn cynnwys pedair uned orfodol

Ymwybyddiaeth o Fusnes - Fe fyddwch yn dysgu am fathau o fusnesau gwahanol, strwythurau, llywodraethu a'r fframwaith cyfreithiol y maent yn gweithio ynddo, ac effaith yr amgylchedd micro a macroeconomaidd
Cyfrifeg Ariannol: Paratoi Datganiadau Ariannol* - Byddwch yn dysgu sut i gymhwyso egwyddorion cadw cyfrifon mynediad deuol uwch, caffael a gwaredu asedau nad ydynt yn gyfredol. Byddwch yn paratoi cyfrifiadau dibrisio, addasiadau ar ddiwedd cyfnodau a chyhoeddi balans treial estynedig.
Technegau Cyfrifo Rheoli - Byddwch yn deall pwrpas a defnydd cyfrifo rheoli a dysgu'r technegau costio a thaenlenni sydd eu hangen ar sefydliadau, a'r egwyddorion rheoli arian parod.
Prosesau Trethi ar gyfer Busnesau* - Byddwch yn archwilio a chymhwyso gofynion deddfwriaethol TAW, cyfrifo TAW, adolygu a dilysu Adenillion TAW gwneud treth yn ddigidol (MTD), deall egwyddorion cyflogresi, ac yn astudio goblygiadau camgymeriadau, ffeilio a thalu'n hwyr, a sut i gofnodi gwybodaeth yn ymwneud â TAW.

Er mwyn ennill y cymhwyster Lefel 3 mewn Cyfrifeg, bydd angen cwblhau'r holl fodiwlau uchod, a gallwch brynu bob modiwl ar wahân.

*Er mwyn ennill cymhwyster Lefel 3 mewn Cadw Cyfrifon bydd angen i chi gwblhau dau fodiwl gyda *, gallwch brynu bob modiwl ar wahân.

Gofynion Mynediad

Tystysgrif Lefel 2 mewn Cyfrifeg

neu
Gyfweliad â'r tiwtor os nad yw'r uchod ar gael

Gwybodaeth Ychwanegol

Ar ôl cwblhau Lefel 3 mewn Cyfrifeg yn llwyddiannus, gallwch symud ymlaen at Ddiploma AAT

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Lefel 4 mewn Cyfrifeg, a gallwch wneud hynny ar sail llawn amser neu ran amser yn Coleg Gwent. Ar ôl cwblhau'r cwrs hwnnw, gallwch ddechrau ar swydd ym maes cyllid.

Ar ôl cwblhau Lefel 3 Cadw Cyfrifon yn llwyddiannus, gallwch symud ymlaen i AAT Lefel 3 mewn Cyfrifeg drwy gwblhau dwy uned ychwanegol - Ymwybyddiaeth o Fusnes a Thechnegau Cyfrifeg Rheoli.

Costau eraill:

Oddeutu £30 fesul modiwl ar gyfer llyfrau

Cofrestriad AAT (yn daladwy i AAT) £240